**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad , Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Martyn Holland, Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray a David G Williams. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb personol neu ragfarnus yn yr eitem fusnes dan drafodaeth. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod. |
| **4** | OSGOI A LLEIHAU PLASTIG YNG NGHYNGOR SIR DDINBYCH | Cynigiodd y Cynghorydd Peter Scott fod y tri argymhelliad a ffurfiwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen ac a amlinellwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r pedwerydd argymhelliad a gynigwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod, yn cael eu derbyn. Eiliodd y Cynghorydd Hugh Irving gynnig y Cynghorydd Scott.<br><br>Cymerwyd pleidlais ffurfiol ar y pedwar argymhelliad gyda'i gilydd. Pleidleisiodd pob aelod o'r Pwyllgor oedd yn bresennol dros yr argymhellion. Ni ddangosodd unrhyw aelod o'r Pwyllgor oedd yn bresennol eu bod yn dymuno pleidleisio yn erbyn neu ymatal rhag pleidleisio ar unrhyw un o'r cynigion. Felly, roedd y Pwyllgor yn unfrydol wedi:<br><br>***<u>Penderfynu:</u> - ar ôl ystyried yr wybodaeth a gafwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen ar ei waith hyd yma -***<br><br>***(i) o ystyried amgylchiadau presennol pandemig byd-eang COVID-19, na ddylai Cam 2 gwaith y Grŵp barhau a bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei ddirwyn i ben;***<br>***(ii) bod cyfleoedd i leihau'r defnydd o blastigau yn nhrefniadau arlwyo a chaffael ysgolion, ynghyd ag unrhyw waith i'r dyfodol o ran osgoi a*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***lleihau defnyddio plastigau yng nghyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys ei Fodelau Cyflwyno Amgen megis Hamdden Sir Ddinbych Cyf) yn cael eu cydlynu o dan y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig;***<br>***(iii)ar ôl cytuno ar yr argymhellion uchod eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo; a***<br>***(iv) bod cais yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i benderfynu ar y fforwm mwyaf effeithiol ar gyfer monitro gweithredu a chyflawni lleihau'r defnydd o blastigau o fewn Cyngor Sir Ddinbych a'r Strategaeth Ecolegol a Hinsawdd ehangach y Cyngor.*** |